



Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint

**Cynnig i gau Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint (cymuned cyfrwng
Saesneg) o 31 Awst 2016**

Fersiwn 2: Ebrill 2016

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

Crynodeb

1. Enw'r Cynnig/polisi:

Dymuna Cyngor Sir y Fflint geisio safbwyntiau partïon cyfrannog mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint o 31 Awst 2016 gyda'r disgyblion presennol yn trosglwyddo i ysgolion eraill yn yr ardal leol, yn amodol ar ddewis y rhieni.

Mae'r ddogfen ymgynghori'n gosod gwybodaeth y dylai'r ymgynghoreion ei hystyried er mwyn cymryd rhan yn llawn yn y broses ymgynghori. Dilyna'r broses ganllawiau rheoleiddiol fel a osodwyd yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2013 Llywodraeth Cymru.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ffurfiol ar ddydd Mercher 21 Hydref 2015 a daeth i ben ar ddydd Mercher 2 Rhagfyr 2015.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori ffurfiol a chyhoeddi adroddiad yr ymgynghoriad, penderfynodd y Cabinet fwrw ymlaen i gyhoeddi'r cynnig trwy rybudd statudol am 28 diwrnod o ddydd Gwener 29 Ionawr 2016 i ddydd Gwener 26 Chwefror 2016.

Y cynnig yw cau Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint (Ysgol Cyfrwng Saesneg, Gymunedol) o 31 Awst 2016, gyda'r disgyblion yn trosglwyddo i'r rhwydwaith lleol o ysgolion ar sail dewis y rhieni.

2. Cyfarwyddiaeth/Adran:

Y Gwasanaethau Addysg ac Ieuenctid

3. Swyddog Arweiniol:

Ian Budd, Prif Swyddog – Addysg ac Ieuenctid

4. Prif Nodau/dibenion/deilliannau'r polisi:

Rhoddir y cynnig gerbron ar sail y meini prawf a osodir yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor, sef:-

- Lleoedd heb eu llenwi ar draws y portffolio ysgolion cynradd – roedd gan Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint ym mis Ionawr 2015 (CYBLD) 66 o ddisgyblion amser llawn gyda chanran y lleoedd heb eu llenwi ar 13.16%. O fis Medi 2015 ymlaen, bu gan yr ysgol boblogaeth o 55 o ddisgyblion amser llawn gyda chanran y lleoedd heb eu llenwi ar 27.63%;
- Meini prawf adnoddau'n gostwng (ysgolion a gefnogir gan ddisgyblion y tu allan i'w cymuned leol ac/neu niferoedd bach yn y gymuned sy'n mynegi pryder mewn perthynas â chynaliadwyedd ym mhorthffolio'r ysgol) – nid yw 83.63% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint yn mynychu eu hysgol leol;
- Meini Prawf Ysgolion Bach – Mae poblogaeth yr Ysgol a chapasiti Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint yn is na'r disgrifiad cenedlaethol o ysgol fach, yn ogystal,

nid yw niferoedd yr ysgol yn bodloni isafswm gofynion modelau ysgolion cynradd fel y nodwyd yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor, ac

- Ar hyn o bryd, mae Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint (Gorffennaf 2015) hefyd yng nghategori 4 Llywodraeth Cymru, lle, ar raddfa o 1-4, 4 yw'r isaf o ran y safonau addysg. Disgwylir i hyn newid yn yr adolygiad blynyddol nesaf.

5. A gysylltwyd/ymgyngorwyd â gweithwyr/ defnyddwyr gwasanaeth/ y cyhoedd ar y newidiadau arfaethedig: DO/NADDO

Do

Cynigiwyd digwyddiad ymgynghori i blant a phobl ifanc Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint. Gofynnodd Llywodraethwyr Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint i'r Cyngor beidio â chyfarfod â Chyngor Ysgol, Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint. Teimlai'r Llywodraethwyr fod y disgyblion eisoes wedi cyflwyno'u safbwyntiau ar y cynnig i gau'r ysgol ar ffurf llythyr. Cadarnhaodd y Corff Llywodraethol trwy ohebiaeth dyddiedig ar 11 Tachwedd 2015 a 30 Tachwedd 2015 eu bod yn fodlon bod y disgyblion wedi gallu cyflwyno'u safbwyntiau mewn perthynas â'r cynnig i gau'r ysgol. Roedden nhw'n gadarn eu barn nad oedd unrhyw les i'r plant fynd trwy'r pryder a'r gofid o gwblhau fersiwn y plant a'r bobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori.

Trefnwyd digwyddiadau ymgynghori gyda chyngor ysgol Cornist C.P. School ac Ysgol Owen Jones, Llaneurgain. Hwyluswyd y digwyddiadau gan y Prif Ymarferwr Ysgolion Iach a gafodd y dasg o ymgysylltu ac ymgynghori â'r disgyblion. Roedd aelod o'r Tîm Moderneiddio Ysgolion yn bresennol yng nghyfarfodydd y Cynghorau Ysgol hefyd. Dewisodd Ysgol Gwynedd hwyluso'i chyfarfod ei hun gyda'i Chyngor Ysgol er mwyn trafod y cynnig. Cafodd y plant a'r bobl ifanc gyfle hefyd i ymateb i'r ymgynghoriad gan ddefnyddio fersiwn y plant a'r bobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori.

Trefnwyd digwyddiad ymgynghori i rieni/gofalwyr Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint hefyd. Hwyluswyd hwn gan Swyddogion Cyngor Sir y Fflint. Cafodd Rhieni/Gofalwyr gyfle i drafod y cynnig gyda Swyddogion. Roedd modd i bartion cyfrannog eraill ymateb trwy'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, oedd ar gael ar bapur ac ar-lein.

Cwblhawyd y gwaith o ymgynghori a rhannu Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg gyda Grŵp Sicrhau Ansawdd Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint yn ystod ac ar ôl y cyfnod ymgynghori. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys Swyddogion y Cyngor ac aelodau'r cyhoedd o'r gymuned o nodweddion gwarchoddedig ac ystyriodd yr effeithiau dynodedig ac mae'n darparu adborth ar unrhyw ffyrdd posibl o gyfyngu ar effaith negyddol neu mae'n hyrwyddo effaith gadarnhaol ar y Gymraeg ac /neu grwpiau gwarchoddedig. Bydd yr aseiad hwn yn broses organig ar hyd y cyfnod ymgynghori.

O ganlyniad i gyfarfod â Grŵp Sicrhau Ansawdd yr Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Corfforaethol y Cyngor, lluniwyd fersiwn 2 diwygiedig o'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y cynnig hwn.

6. Beth sy'n cael ei wneud i gyfyngu ar unrhyw effaith negyddol neu hyrwyddo effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a/neu grwpiau gwarchoddedig (gweler adran 2):

Mae Ysgol Maes Edwin, ym mhentref Mynydd y Fflint, yn ysgol gynradd Cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 3-11 oed. Mae'n Gategori 4 ar gyfer safonau ym model categoreiddio Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

O blith yr ysgolion cyfagos eraill y nodwyd y gallent dderbyn disgyblion o Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint, o bosibl petai'n cau, mae:-

Ysgol Gwynedd, yn nhref y Fflint, rhyw 2.24 milltir o Ysgol Maes Edwin. Mae Ysgol Gwynedd yn ysgol gynradd Cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 3-11 oed ac yn ysgol categori 2 o ran safonau ym model categoreiddio Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Cornist C.P School, yn nhref y Fflint, rhyw 2.73 milltir o Ysgol Maes Edwin. Mae Cornist C.P.School yn ysgol gynradd Saesneg i ddisgyblion 3-11 oed ac yn ysgol categori 1 o ran safonau ym model categoreiddio Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Ysgol Owen Jones, ym mhentref Llaneurgain, rhyw 1.43 milltir o Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint. Mae Ysgol Owen Jones yn ysgol gynradd Cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 3-11 oed ac yn ysgol categori 1 o ran safonau ym model categoreiddio Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Mae Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint a'r ysgolion cynradd lleol uchod sy'n debygol o dderbyn disgyblion Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint os bydd yn cau wedi'u dosbarthu'n ysgolion cymunedol, cyfrwng Saesneg ac felly, nid oes effeithiau negyddol amlwg ar y Gymraeg.

Yn amodol ar ddewis y rhieni, mae opsiwn i ddisgyblion Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint droi at addysg cyfrwng Cymraeg yn ysgolion eraill Sir y Fflint os bydd y cynnig i gau'r ysgol yn mynd yn ei flaen. Ysgol Croes Atti, y Fflint yw'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf at Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint.

7. Sut bydd y cynigion yn helpu hyrwyddo cydraddoldeb, yn dileu gwahaniaethu ac yn hyrwyddo cysylltiadau da?


Mae gan yr ysgolion cynradd lleol yn yr ardal leol (Ysgol Gwynedd, y Fflint, Cornist C.P. School, y Fflint ac Ysgol Owen Jones, Llaneurgain) y bydd y disgyblion yn eu dewis o bosibl os bydd Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint yn cau, eu datganiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hunain. Bydd gan bob ysgol ei hethos ei hun o ran hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a hyrwyddo cysylltiadau da.

8. Oes cynllun gweithredu ar waith?

Oes

Enw: Ian Budd

Arwyddwyd:



Teitl Swydd: Prif Swyddog - Addysg ac Ieuenctid

Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

Nod asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg (AEG) yw sicrhau bod polisïau'n helpu hyrwyddo cydraddoldeb a'r Gymraeg. Mae'r AEG yn cyfrannu at lunio polisïau effeithiol trwy roi cyfle i leihau'r risg a gwneud y mwyaf o fanteision polisi, ac felly'n sicrhau bod gennym y polisi gorau posibl ar waith. Yn ogystal, mae'n ein helpu ni i fodloni'n gofynion dan ddyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. **Defnyddiwn y gair 'polisi' ar hyd y ddogfen hon i gyfeirio at yr hyn rydym yn ei asesu. Yn y cyd-destun hwn, mae'r term yn cynnwys y gwahanol bethau a wnawn, gan gynnwys strategaethau, swyddogaethau, gweithdrefnau, arferion, penderfyniadau, mentrau a phrosiectau.**

Dylai pob AEG ystyried effaith botensial y polisïau mewn perthynas â phob maes cydraddoldeb a'r Gymraeg gan gynnwys materion hawliau dynol a chymdeithasol-economaidd. Wrth gynnal asesiad, dylech ystyried canlyniadau negyddol a chadarnhaol eich cynigion. Bydd ein dull o droi at yr AEG yn ein helpu i gryfhau'n gwaith i hyrwyddo cydraddoldeb a'r Gymraeg. Bydd hefyd yn helpu nodi a mynd i'r afael ag unrhyw ddarpar effeithiau gwahaniaethol cyn cyflwyno polisi a lleihau'r risg o ddarpar heriau cyfreithiol. Wrth gynnal AEG, dylech ystyried canlyniadau negyddol a chadarnhaol eich cynigion.

Os dynodwyd prosiect ar gyfer grŵp penodol, mae angen i chi feddwl hefyd am ba effeithiau potensial y gallai ei gael ar feysydd cydraddoldeb eraill. Mae cyngor, canllawiau a hyfforddiant pellach ar gael a dylid eu defnyddio wrth gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

1. Casglu Data a Thystiolaeth

<p>Pa dystiolaeth e.e. data, ymchwil, canlyniadau ymgysylltu ac ymgynghori a ddefnyddioch chi i ystyried sut gallai'r polisi hwn effeithio ar-</p> <p>i) bobl gyda nodweddion gwarchoddedig</p> <p>ii) cyfleoedd i unigolion/cymunedau ddefnyddio'r Gymraeg</p> <p>Rhowch gyswllt ag unrhyw ddogfennau perthnasol. Disgrifiwch gyda phwy rydych chi wedi ymgysylltu a'r canlyniadau? (Mae'n ofyniad statudol i ymgysylltu gyda phobl â nodweddion gwarchoddedig).</p>	<p>Er mwyn dadansoddi'r dystiolaeth i ystyried yr effeithiau i bobl gyda nodweddion gwarchoddedig, dadansoddwyd data Cyfrifiad Ysgol Blynyddol Lefel Disgybl neu ddata CYBLD (Ionawr 2015) ar gyfer Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint.</p> <p>Cwblhawyd gwaith ymgynghori a rhannu'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gyda Grŵp Sicrhau Ansawdd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys Swyddogion y Cyngor ac aelodau cyhoeddus y gymuned o nodweddion gwarchoddedig.</p> <p>Dadansoddwyd data'r disgyblion o'r Gwasanaethau Cynhwysiant. Nid yw'r setiau data'n cynnwys disgyblion meithrin.</p>
---	---

	<p>Dadansoddwyd gwybodaeth am y gweithlu a gafwyd gan y tîm Partner Busnes Adnoddau Dynol hefyd.</p> <p>Nid oes data cydraddoldeb ar gael i Lywodraethwyr yr ysgol. Cesglir y wybodaeth gan Lywodraethwyr wrth iddynt ddechrau fel Llywodraethwyr newydd ac yn flynyddol. Mae casglu data'n ddiennw ac nid yw'n orfodol - ni ellir priodoli'r data sydd ar gael i ysgol benodol.</p> <p>Gellir dod o hyd i Adborth yr Ymgynghoriad yn Adroddiad yr Ymgynghoriad yn y ddolen ganlynol</p> <p>http://www.siryfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/School-Modernisation-Area-Schools-Review/Ysgol-Maes-Edwin-Flint-Mountain/Final-Consultation-Report-Ysgol-Maes-Edwin-Welsh.pdf</p>
<p>Pa ymchwil, data neu ymgynghoriad ychwanegol sy'n ofynnol i lenwi unrhyw fylchau wrth ddeall effeithiau'r polisi?</p>	<p>Adroddiadau Arolygiadau Estyn</p>

2 Asesiad o'r effaith a chryfhau'r polisi

Mae'r rhan hon yn gofyn i chi asesu effaith y polisi ar bob un o'r grwpiau gwarchoddedig a'r Gymraeg. **Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael, nodwch effeithiau'r polisi hwn ar y grwpiau canlynol**

Nodwch effaith						
	+effaith gadarnh aol O/N	-effaith negyddol O/N	Dim effaith O/N	Sut effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut gallech hyrwyddo effaith gadarnhaol ¹
Oedran <i>(ar draws y sbectrwm cyfan o oedrannau)</i>	O	O	N	<p><u>Disgyblion</u></p> <p>Mae data CYBLD Ionawr 2015 yn dweud wrthym o'r 66 o ddisgyblion Amser Llawn (ac eithrio'r Dosbarthiadau Blynyddoedd Cynnar a Meithrin) sy'n mynychu Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint, mae nifer ganlynol y disgyblion o fewn yr ystodau oedran canlynol:-</p> <p>Y Blynyddoedd Cynnar (oddeutu 3 oed) = 0</p> <p>Nursery (oddeutu 4 oed) = 4</p> <p>Derbyn (oddeutu 5 oed) = 9</p> <p>Blwyddyn 1 (oddeutu 6 oed) = 11</p> <p>Blwyddyn 2 (oddeutu 7 oed) = 11</p> <p>Blwyddyn 3 (oddeutu 8 oed) = 9</p> <p>Blwyddyn 4 (oddeutu 9 oed) = 10</p> <p>Blwyddyn 5 (oddeutu 10 oed) = 9</p>	<p>Mae gan bob Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i gynnig addysg amser llawn i bob plentyn 5 i 16 oed.</p> <p>Wrth gynnig newidiadau i drefniadaeth yr ysgol, cydnabyddir y bydd rhai newidiadau i'r disgyblion megis</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llwybr ychydig yn hwy i'r ysgol i'r disgyblion • Amser teithio byrrach i'r disgyblion sy'n byw yn ardal y Fflint • Gwisg ysgol newydd • Athrawon a staff cymorth newydd • Amgylchedd dysgu newydd • Gallai grwpiau cyfeillgarwch gael eu heffeithio, fodd bynnag, gallai grwpiau cyfeillgarwch newydd gael eu creu <p>Bydd rhieni/gofalwyr hefyd yn cael gwybodaeth a chefnogaeth drwy'r ysgol yn ystod y broses.</p>	<p>Bydd disgyblion ar draws y gwahanol ystodau oedran yn cael cynnig darpariaeth Ysgol Gynradd arall a chefnogaeth wrth bontio.</p> <p>Mae gan y Cyngor a'r ysgolion yr effeithir arnynt ddyletswydd i gefnogi cymorth pontio priodol os bydd yr ysgol yn cau.</p> <p>Bydd rhieni/gofalwyr hefyd yn cael gwybodaeth a chefnogaeth drwy'r ysgol yn ystod y broses.</p>

¹ Pa fesurau mae'r polisi'n eu cynnwys i helpu hyrwyddo cydraddoldeb a'r Gymraeg, dileu gwahaniaethu a hyrwyddo cysylltiadau da?

<p>Oedran</p> <p><i>(ar draws y sbectrwm cyfan o oedrannau) parhad</i></p>				<p>Blwyddyn 6 (oddeutu 11 oed) = 7</p> <p>Os bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith, bydd lefelau cyrhaeddiad yn y cyfnodau allweddol ym mhob ysgol amgen yn dangos y bydd yna effaith niwtral a bydd yn hyrwyddo cydraddoldeb trwy alluogi plant i droi at addysg o'r un safon a gwell deilliannau.</p> <p><u>Staff a Llywodraethwyr</u></p> <p>Mae 11 aelod o staff yn Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint ac mae eu hoedrannau'n amrywio o 16 i 69.</p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer Llywodraethwyr yr ysgol ond mae isafswm oedran o 18 oed.</p> <p><u>Rhieni/Gofalwyr</u></p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer rhieni/gofalwyr.</p> <p>Mae'n bosibl nad oes gan rai rhieni/gofalwyr/neiniau a theidiau eu cludiant eu hunain a allai effeithio ar eu gallu i hebrwng/codi plant y tu allan i'r gwasanaethau cludiant. Gallai hyn effeithio ar bresenoldeb mewn digwyddiadau.</p>	<p>Nodwyd mai'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg arall yw Ysgol Gwynedd, Y Fflint, Cornist CP ac Ysgol Owen Jones, Llaneanurgain.</p> <p>Os bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Llywodraeth ac yn cefnogi'r Llywodraethwyr ac aelodau staff presennol Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint gan gynnwys staff addysgu a chymorth, os bydd y staff yn dymuno ceisio cyfleoedd i symud ysgol.</p> <p>Gallai staff sy'n cael eu diswyddo oherwydd y cynnig gael cyfle i gael gwaith yn y rhwydwaith cynradd lleol, neu archwilio dewisiadau ymddeol. Mae gan yr Ysgol ei pholisi ei hun i gefnogi staff mewn perygl o gael eu diswyddo gan gynnwys cefnogaeth i ganfod cyflogaeth amgen addas.</p>
--	--	--	--	--	---

	effaith gadarnh aol O/N	effaith negyddo I O/N	Dim effaith O/N	Sut effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut gallech hyrwyddo effaith gadarnhaol ²
Anabledd	O	N	O	<p><u>Disgyblion</u></p> <p>Mae CYBLD Ionawr 2015 yn cadarnhau nad oes gan yr un disgybl yn Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint Ddatganiad o Anghenion Arbennig.</p> <p>Mae 16 o ddisgyblion nad oes ganddynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ond sydd wrthi'n cael rhywfaint o gefnogaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (24.24%).</p> <p>Mae llai na 10* o ddisgyblion a chanddynt anawsterau corfforol a meddygol. Mae Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint yn cydymffurfio ag anghenion Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd y disgyblion hyn yn dilyn gwaith a gynhaliwyd ym mis Awst 2015.</p> <p>*Mae'r set ddata hon wedi'i gosod ar lai na 10 oherwydd gallai hyn arwain at nodi disgyblion unigol yn sgil y niferoedd isel yn y garfan gysylltiedig.</p> <p><u>Staff a Llywodraethwyr</u></p> <p>Mae ystadegau'r gweithlu'n nodi'r crynodeb canlynol o staff sydd wedi datgan bod ganddynt anabledd.</p>	<p>Mae gan Wasanaeth Cynhwysiant y Cyngor nifer o wasanaethau cydberthnasol arbenigol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc gydag ystod o anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol: Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Gwasanaeth Cwnsela i Bobl Ifanc, Gwasanaeth Synhwyraidd, Gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol / Sipsiwn a Theithwyr, Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, Gwasanaeth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, Gwasanaeth Lles Addysg, Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad, Addysg y Tu Allan i'r Ysgol a Gwasanaeth Cyflwr y Sbectrum Awtistig.</p> <p>Maen nhw'n sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd yn unol â'r Cod Ymarfer AAA ar gyfer Cymru (2002) ac maen nhw'n ymroi i ddatblygu polisiau ac arferion sy'n sicrhau cyfle a mynediad cyfartal i addysg, ynghyd â diogelu disgyblion diamddiffyn. Yn ogystal, mae ffocws clir ar godi cyflawniad yr holl ddysgwyr a chynyddu cyfranogiad yn eu hysgolion a'u cymunedau lleol.</p> <p>Mae cefnogaeth drwy Wasanaeth Cynhwysiant y Cyngor ar gael i blant a phobl ifanc yn ei holl leoliadau addysgol, h.y. Ysgolion Cynradd ac Uwchradd, Ysgolion Arbenigol a'r Portffolio Unedau Cyfeirio Disgyblion.</p>	<p>Cyflwynir y Gwasanaeth Cynhwysiant ym mhob Ysgol Gynradd ar draws y sir.</p> <p>Gall yr Ysgolion Cynradd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon letya disgyblion yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.</p> <p>Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i leihau ymyrraeth i bob disgyblion gan roi ystyriaeth benodol i ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol.</p> <p>Bydd cefnogaeth ychwanegol i unrhyw ddisgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol ar hyn o bryd yn cael ei hailadrodd yn eu hamgylchedd dysgu newydd.</p>

² Pa fesurau mae'r polisi'n eu cynnwys i helpu hyrwyddo cydraddoldeb a'r Gymraeg, dileu gwahaniaethu a hyrwyddo cysylltiadau da?

<p>Anabledd (parhad)</p>				<p>Nac oes = 18.18%</p> <p>Heb ddatgan = 81.81%</p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer Llywodraethwyr yr ysgol.</p> <p>O wybodaeth y cyfrifiad, staffio a'r Llywodraethwyr, nid oes materion hysbys yn ymwneud â materion symudedd corfforol.</p> <p><u>Rhieni/Gofalwyr</u></p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer rhieni/gofalwyr.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r dyletswyddau a osodir arno gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac mae'n gweithio o fewn cyfyngiadau'r Ddeddf i sicrhau adeiladau ysgol hygyrch i'w ddisgyblion, rhieni a gofalwyr, staff a llywodraethwyr. Bydd gan ddisgyblion sy'n syrthio o fewn diffiniad meddygol "anabledd" ystod eang o anghenion a gofyniad, mae polisïau pontio ar waith i ddisgyblion y mae angen addasiadau arnynt. Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant yn gweithio gyda'r disgyblion i ganfod ysgol wedi'i haddasu addas ar eu cyfer. Mae cyllideb ar gael i addasu ysgolion i'r disgyblion fynd at y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae angen i'r addasiadau i adeiladau fod yn gymesur ac yn rhesymol gan fod y gyllideb yn gwasanaethu Sir y Fflint yn gyfan gwbl a rhaid iddi fodloni anghenion yr holl ddisgyblion a chanddynt anabledd. Asesir unrhyw ddisgybl gydag anabledd yn unigol ac roedd y diwygiadau, yr addasiadau neu'r newidiadau rhesymol perthnasol a wneir yn berthnasol fesul achos.</p>
---------------------------------	--	--	--	---	--

	effaith gadarnh aol O/N	effaith negyddo I O/N	Dim effaith O/N	Sut effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut gallech hyrwyddo effaith gadarnhaol*
Ailbennu Rhywedd	N	N	O	<p><u>Disgyblion</u></p> <p>Nid yw data CYBLD Ionawr 2015 yn cynnwys data ar y nodwedd warchoddedig hon.</p> <p><u>Staff a Llywodraethwyr</u></p> <p>Nid oes data ailbennu rhywedd ar gael i staff.</p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer Llywodraethwyr yr ysgol.</p> <p><u>Rhieni/Gofalwyr</u></p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer rhieni/gofalwyr.</p> <p>Amlygodd adborth Grŵp AEG Corfforaethol effaith negyddol botensial ar:</p> <p>Rieni/Gofalwyr/Brodyr a Chwiorydd/ Gweithwyr - efallai bod unigolion wedi pontio a hwyrach eu bod wedi'u derbyn yn y gymuned leol. Hwyrach na fydd yn heriol mewn amgylchedd ysgol newydd.</p>	<p>Os bydd gan unrhyw ddisgyblion neu rieni/gofalwyr o Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint y nodwedd warchoddedig hon, byddant yn cael cefnogaeth fugeiliol briodol/cefnogaeth deuluol gan ysgolion eraill gerllaw neu gan ysgol arall a ddewiswyd gan y rhieni.</p> <p>Os bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Llywodraethwyr ac yn cefnogi Llywodraethwyr ac aelodau staff presennol Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint gan gynnwys staff addysgu a chymorth os oes ganddynt y nodwedd warchoddedig hon.</p>	<p>Mae Cyngor Sir y Fflint yn aelod o Raglen Hyrwyddwyr Addysg Stonewall. Cynigir hyfforddiant i bob ysgol ar Gwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr Stonewall a fydd yn rhoi'r arfau, yr hyder a'r dechneg i gyfranogwyr hyfforddi staff eraill ar fynd i'r afael â bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig.</p> <p>Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu polisi ailbennu rhywedd i ysgolion. Bydd hyfforddiant ar gael i ysgolion.</p>

	effaith gadarnh aol O/N	effaith negyddo I O/N	Dim effaith O/N	Sut effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut gallech hyrwyddo effaith gadarnhaol*
Priodas a phartneriaeth sifil	N	N	O	<p><u>Disgyblion</u></p> <p>Nid yw data CYBLD Ionawr 2015 yn cynnwys data ar y nodwedd warchoddedig hon.</p> <p>Yn gyfreithiol, ni all disgyblion briodi na dechrau partneriaeth sifil tan iddynt droi'n 16 oed; mae angen caniatâd y rhieni os ydynt o dan 18 oed, felly ni fyddai'r nodwedd warchoddedig hon yn berthnasol.</p> <p><u>Staff a Llywodraethwyr</u></p> <p>Mae ystadegau'r gweithlu'n nodi'r crynodeb canlynol o staff sydd wedi datgan eu statws priodasol neu bartneriaeth sifil.</p> <p>Yn briod neu mewn partneriaeth sifil = 18.18%</p> <p>Heb fod yn briod nac mewn partneriaeth sifil = 9.09%</p> <p>Heb ddatgan = 72.73%</p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer Llywodraethwyr yr ysgol.</p> <p><u>Rhieni/Gofalwyr</u></p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer rhieni/gofalwyr.</p> <p>Amlygodd yr adborth o ymgynghoriad Grŵp AEG Corfforaethol:-</p> <p>Rhieni/Gofalwyr/gweithwyr - os bydd yr ysgol yn cau a'r plant yn symud i ysgol newydd, mae'n bosibl y bydd yna agweddau heriol tuag at unrhyw rieni/gofalwyr/gweithwyr sydd mewn perthnasoedd un rhyw.</p>	<p>Os bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Llywodraethwyr ac yn cefnogi'r Llywodraethwyr ac aelodau staff presennol Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint gan gynnwys staff addysgu a chymorth os oes ganddynt y nodwedd warchoddedig hon.</p> <p>Os bydd gan unrhyw rieni/gofalwyr o Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint y nodwedd warchoddedig hon, byddant yn cael y gefnogaeth briodol gan yr ysgolion amgen gerllaw neu gan ysgol arall a ddewiswyd gan y rhieni.</p>	<p>Mae gan bob ysgol o leiaf un Athro'n mynychu hyfforddiant trwy Stonewall Cymru. Cynigir lle i Lywodraethwyr yr Ysgol hefyd. Dylai hyn gefnogi ysgolion i nodi unrhyw wahaniaethu neu fwlio a chymryd camau i fynd i'r afael ag ef.</p>

	effaith gadarnh aol O/N	effaith negyddo I O/N	Dim effaith O/N	Sut effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut gallech hyrwyddo effaith gadarnhaol*
Beichiogrwydd a mamolaeth	N	N	O	<p><u>Disgyblion</u></p> <p>Nid yw data CYBLD Ionawr 2015 yn cynnwys data ar y nodwedd warchoddedig hon.</p> <p><u>Staff a Llywodraethwyr</u></p> <p>Mae ystadegau'r gweithlu'n nodi'r crynodeb canlynol o staff sydd ar gyfnod mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu.</p> <p>Cyfnod Mamolaeth = 9%</p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer Llywodraethwyr yr ysgol.</p> <p><u>Rhieni/Gofalwyr</u></p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer rhieni/gofalwyr. Ni chodwyd unrhyw faterion yn ystod yr ymgynghoriad.</p>	<p>Os bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Llywodraethwyr ac yn cefnogi'r Llywodraethwyr ac aelodau staff presennol yn Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint gan gynnwys staff addysgu a chymorth os oes ganddynt y nodwedd warchoddedig hon i sicrhau bod unigolion ar gyfnod mamolaeth yn cael gwybod am gyfathrebiadau allweddol yn ystod y broses.</p> <p>Os bydd gan unrhyw rieni/gofalwyr o Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint y nodwedd warchoddedig hon, byddant yn cael y gefnogaeth briodol gan yr ysgolion amgen gerllaw neu ysgol arall a ddewiswyd gan y rhieni.</p>	Ddim yn berthnasol

	effaith gadarnh aol O/N	effaith negyddo I O/N	Dim effaith O/N	Sut effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut gallech hyrwyddo effaith gadarnhaol*
Hil	N	N	O	<p><u>Disgyblion</u> Mae data CYBLD Ionawr 2015 yn cadarnhau bod 100% o'r disgyblion yn Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint yn Wyn Prydeinig.</p> <p>Mae data CYBLD yn nodi nad oes yr un disgybl o Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint yn cael cefnogaeth ar gyfer Saesneg fel Iaith Ychwanegol.</p> <p><u>Staff a Llywodraethwyr</u></p> <p>Mae ystadegau'r gweithlu'n nodi'r crynodeb canlynol o staff yn ôl eu hethnigrwydd.</p> <p>Gwyn = 27.27%</p> <p>Heb Ddatgan = 72.73%</p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer Llywodraethwyr yr ysgol.</p> <p><u>Rhieni/Gofalwyr</u></p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer rhieni/gofalwyr.</p>	<p>Mae Cyngor Sir y Fflint yn rhoi cefnogaeth i blant nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt trwy'r tîm Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn y Gwasanaeth Cynhwysiant.</p> <p>Os bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Llywodraethwyr ac yn cefnogi Llywodraethwyr ac aelodau staff presennol yn Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint gan gynnwys staff addysgu a chymorth os oes ganddynt y nodwedd warchoddedig hon.</p>	<p>Bydd disgyblion ar draws y gwahanol gefndiroedd ethnig yn cael cynnig darpariaeth Ysgolion Cynradd amgen a chefnogaeth bontio ar sail eu blwyddyn gwricwlwm.</p>

	effaith gadarnh aol O/N	effaith negyddo I O/N	Dim effaith O/N	Sut effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut gallech hyrwyddo effaith gadarnhaol*
Crefydd / Cred	N	N	O	<p><u>Disgyblion</u></p> <p>Nid yw data CYBLD Ionawr 2015 yn cynnwys data ar y nodwedd warchoddedig hon.</p> <p>Nid yw Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint yn ysgol enwadol gyswllt.</p> <p><u>Staff a Llywodraethwyr</u></p> <p>Mae ystadegau'r gweithlu'n nodi'r crynodeb canlynol o staff yn ôl eu crefydd neu gred.</p> <p>Cristion = 18.18%</p> <p>Heb Ddatgan = 81.82%</p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer Llywodraethwyr yr ysgol.</p> <p><u>Rhieni/Gofalwyr</u></p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer rhieni/gofalwyr.</p> <p>Ni chodwyd unrhyw faterion yn ystod yr ymgynghoriad.</p>	<p>Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i fonitro'r ddarpariaeth a chyflawniad disgyblion ac ysgolion yn ymwneud â maes llafur cytûn Addysg Grefyddol.</p> <p>Os bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Llywodraethwyr ac yn cefnogi'r Llywodraethwyr ac aelodau staff presennol yn Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint gan gynnwys staff addysgu a chymorth os oes ganddynt y nodwedd warchoddedig hon.</p> <p>Os bydd gan unrhyw rieni/gofalwyr o Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint y nodwedd warchoddedig hon, byddan nhw'n cael y gefnogaeth briodol gan ysgolion eraill gerllaw neu gan ysgol arall a ddewiswyd gan y rhieni.</p>	<p>Mae Ysgolion Cynradd enwadol ac anenwadol ar gyfer plant 3-11 oed ar gael yn Sir y Fflint os bydd disgyblion sydd wedi ymwahanu'n dymuno troi at addysg ffydd os bydd Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint yn cau.</p>

	effaith gadarnh aol O/N	effaith negyddo I O/N	Dim effaith O/N	Sut effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut gallech hyrwyddo effaith gadarnhaol*
Rhyw (<i>Dynion, menywod, bechgyn, merched</i>)	N	N	O	<p>Mae data CYBLD Ionawr 2015 yn nodi bod gan Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint 66 o ddisgyblion amser llawn yn mynychu, y mae</p> <p>29 (43.9%) = yn fechgyn</p> <p>37 (56.06%) = yn ferched</p> <p><u>Staff a Llywodraethwyr</u></p> <p>Mae ystadegau'r gweithlu nodi'r crynodeb canlynol o staff yn ôl rhyw.</p> <p>Benyw = 100%</p> <p>Gwryw = 0%</p> <p>Mae ystadegau'r gweithlu'n nodi'r crynodeb canlynol o amser llawn i ran-amser</p> <p>Rhan-amser = 81.81%</p> <p>Amser llawn = 18.18%</p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchodedig hon ar gyfer Llywodraethwyr yr ysgol.</p> <p>Bydd unrhyw ddiswyddiadau'n effeithio ar fenywod gan fod 100% o'r gweithlu'n fenywaidd.</p> <p><u>Rhieni/Gofalwyr</u></p>	<p>Caiff perfformiad ei fonitro yn ôl rhyw ar lefel ysgol a symudir camau yn eu blaen trwy Gynllun Gweithredu'r Ysgol i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau, gan gyfeirio cefnogaeth at y meysydd pwnc angenrheidiol.</p> <p>Os bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Llywodraethwyr ac yn cefnogi'r Llywodraethwyr ac aelodau staff presennol yn Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint gan gynnwys staff addysgu a chymorth os oes ganddynt y nodwedd warchodedig hon. Bydd proses ymgynghori'r gweithlu'n cynnwys cyfarfodydd 1 i 1 gyda gweithwyr sy'n cael eu heffeithio gan y cynigion.</p> <p>Os bydd gan unrhyw rieni/gofalwyr o Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint y nodwedd warchodedig hon, byddant yn cael y gefnogaeth briodol gan yr ysgolion amgen gerllaw neu ysgol arall a ddewiswyd gan y rhieni.</p>	<p>Caiff perfformiad ei fonitro yn ôl rhyw yn yr Ysgolion Cynradd y bydd y disgyblion yn cael eu gwasgaru iddynt.</p>

<p>Rhyw (<i>Dynion, menywod, bechgyn, merched</i>) parhad</p>				<p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer rhieni/gofalwyr.</p> <p>Cododd yr ymgynghoriad y materion canlynol:-</p> <p>Mae angen proffil gweithwyr y rhai sy'n gweithio'n rhan-amser/amser llawn i nodi'r effaith. Yn ogystal, mae pa mor bell mae pobl yn teithio i'r gwaith yn bwysig os byddant yn cael eu symud i swydd mewn ysgol wahanol. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn sicrhau bod yr holl weithwyr sy'n cael eu heffeithio'n gwybod am y newidiadau a'r canlyniad.</p>		
---	--	--	--	---	--	--

	effaith gadarnh aol O/N	effaith negyddo I O/N	Dim effaith O/N	Sut effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut gallech hyrwyddo effaith gadarnhaol*
Cyfeiriad edd Rhywiol	N	N	O	<p>Nid yw data CYBLD Ionawr 2015 yn cynnwys data ar y nodwedd warchoddedig hon.</p> <p><u>Staff a Llywodraethwyr</u></p> <p>Mae ystadegau'r gweithlu'n nodi'r crynodeb canlynol o staff yn ôl cyfeiriadedd rhywiol.</p> <p>Heterorywiol/Syth = 9.09%</p> <p>Heb Ddatgan = 90.91%</p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer Llywodraethwyr yr ysgol.</p> <p><u>Rhieni/Gofalwyr</u></p> <p>Nid oes gwybodaeth ar gael am y nodwedd warchoddedig hon ar gyfer rhieni/gofalwyr.</p> <p>Cododd adborth gan y Grŵp AEG Corfforaethol yr un materion â'r rhai a nodwyd ar gyfer Ailbennu Rhywedd.</p> <p>Rhieni/Gofalwyr/Brodyr a Chwiorydd/Gweithwyr - gallai'r unigolion fod mewn perthynas lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol, a gallai pontio i amgylchedd ysgol newydd fod yn heriol.</p>	<p>Os bydd gan unrhyw ddisgyblion o Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint y nodwedd warchoddedig hon, byddant yn cael y gefnogaeth fugeiliol briodol gan ysgolion amgen gerllaw neu ysgol arall a ddewiswyd gan y rhieni.</p>	<p>Gall yr Ysgolion Cynradd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon letya disgyblion yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.</p> <p>Mae Cyngor Sir y Fflint yn aelod o Raglen Hyrwyddwyr Addysg Stonewall. Cynigir un lle i bob ysgol ar y Cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr a fydd yn rhoi'r arfau, yr hyder a'r dechneg i'r cyfranogwyr hyfforddi staff eraill ar fynd i'r afael â bwlio homoffobig.</p>

	effaith gadar nhaol O/N	effaith negydd ol O/N	Dim effaith O/N	Sut effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut gallech hyrwyddo effaith gadarnhaol*
Yr Iaith Gymraeg	O	N	N	Diffinnir Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint yn un Cyfrwng Saesneg.	Caiff pob Ysgol ei monitro'n rheolaidd gan y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol GwE ac maent yn cael Arolygiadau Ysgolion trwy Estyn.	Mae opsiwn i rieni yn yr ardal ddewis darpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn sectorau Cynradd ac Uwchradd gan fod Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint. Ceir ysgol cyfrwng Cymraeg Ysgol Croes Atti, Y Fflint sydd rhyw 3.2 milltir o Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint.

	effaith gadarnhaol O/N	effaith negyddol O/N	Dim effaith O/N	Sut effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut gallech gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut gallech hyrwyddo effaith gadarnhaol*
Arall (<i>effeithiau ychwanegol megis hawliau dynol, tlodi, pobl yn byw mewn ardaloedd gwledig</i>)	N	N	O	<p>Mae'r grwpiau cymunedol canlynol yn defnyddio Cyfleusterau Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint:</p> <p>Sefydliad y Merched</p> <p>Yr Orsaf Bleidleisio</p> <p>Partïon Pen-blwydd Plant</p> <p>Mae 19.69% o'r disgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint. Cofnoda data mylocalschool.com hyn ar 15.2% dros gyfartaledd 3 blynedd yn 2014.</p> <p>Effeithiau ariannol ar gyfer rhieni/gofalwyr sy'n prynu gwisgoedd ysgol newydd.</p> <p>Ystyrir bod Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint yn gymuned wledig. Os bydd y cynnig i gau Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint yn cael ei wireddu byddai'r gymuned yn gweld effaith o bosibl. Cwblhawyd asesiad o'r effaith ar y gymuned a gellir dod o hyd iddo yn y ddolen ganlynol:-</p> <p>http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Home.aspx</p>	<p>Nid oes cynlluniau ar gyfer y safle yn Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint, gallai'r Cyngor ystyried trosglwyddo'r ased neu ran o'r adeilad i grŵp cymunedol cyfansoddiadol lle gallant ddangos angen a gallu i gymryd dros y gwaith o redeg y safle.</p> <p>Mae gwasanaeth cyfnewid gwisg ysgol ar gael i ddisgyblion Sir y Fflint. Nod Cyfnewid Gwisg Ysgol yw annog pobl Sir y Fflint i ailgylchu a rhoi eitemau gwisg ysgol diangen neu heb eu defnyddio yn hytrach na'u rhoi nhw yn y bin. Mae pob eitem gwisg ysgol a roddir ar gael i'w prynu yn Nhŷ'r Eos. Mae siopau hosbis ar hyd Sir y Fflint yn eu gwerthu am gost llawer rhatach o gymharu â phrisiau'r stryd fawr.</p> <p>Yn ogystal, mae'n eithaf nodweddiadol y bydd angen gwisgoedd ysgol newydd ar y rhan fwyaf o ddisgyblion wrth iddynt ddechrau blwyddyn academaidd newydd, felly gallai fod angen prynu gwisg ysgol newydd ni waeth pa ysgol a fynychir gan y disgybl.</p>	<p>Fel rhan o'r ymarfer ymgynghori, bydd gwaith ychwanegol yn cael ei gwblhau gyda'r grŵp hwn o ddisgyblion a'r rhieni/gofalwyr er mwyn lliniaru unrhyw effaith botensial a sicrhau bod cymuned Mynydd y Fflint yn parhau i ffynnu.</p>

<p>Os na chymerir unrhyw gamau i waredu neu liniaru effaith negyddol/andwyol, cyfiawnhewch pam</p>	<p>Ddim yn berthnasol</p>
---	----------------------------------

4. Caffael

<p>Oes disgwyl i gontractwyr gyflawni'r polisi hwn yn gyfan gwbl neu'n rhannol? Os oes, nodwch pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i gynnwys ym mhob cam o'r broses gaffael y gofyniad i ystyried y dyletswyddau cydraddoldeb.</p> <p>Bydd angen i chi feddwl ynghylch:</p> <ul style="list-style-type: none"> • tendro a manylebau • y broses ddyfarnu • cymalau contractau • mesurau perfformiad, a mesurau monitro a pherfformiad 	<p>Ddim yn berthnasol</p>
--	---------------------------

5. Monitro, Gwerthuso ac Adolygu

<p>Sut byddwch yn monitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi newydd?</p> <p>Gallai hyn gynnwys addasiadau neu estyniadau i'r systemau monitro presennol, amserlenni perthnasol ac ymrwymiad i gynnal adolygiad AEG ar ôl i'r polisi fod ar waith am flwyddyn. Rhestrwch fanylion unrhyw waith dilyn i fyny a fydd yn cael ei gynnal mewn perthynas â'r polisi (e.e. yr arolwg, proses fonitro benodol ac ati).</p>	<p>Adolygiad o wybodaeth arolwg CYBLD ar gyfer gwasgaru safleoedd ysgol</p> <p>Ionawr 2016</p> <p>Ionawr 2017</p> <p>Adolygiad gyda'r Gwasanaethau Cynhwysiant ar yr effeithiau ar ddisgyblion sy'n symud o Ysgol Maes Edwin, Mynydd y Fflint i Ysgolion Cynradd eraill gerllaw.</p> <p>Adolygu dangosyddion cenedlaethol seiliedig ar berfformiad, gyda GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd Ysgolion) a thrwy Estyn.</p> <p>Adolygu data a gasglwyd yn ystod y broses ymgynghori ar y nodweddion gwarchoddedig.</p>
<p>Rhowch fanylion sut bydd canlyniadau'r asesiad o effaith yn cael eu cyhoeddi, gan gynnwys canlyniadau'r ymgynghoriad a gwybodaeth monitro os yn berthnasol.</p> <p>Bydd crynodebau canlyniadau'r holl asesiadau o effaith yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Gallech eu cyhoeddi mewn cyfryngau perthnasol eraill hefyd.</p>	<p>Cyhoeddiad ar wefan Cyngor Sir y Fflint</p> <p>Dolen gyswllt i wefan Cyngor Sir y Fflint a ddarparwyd i'r ysgol</p>

6. Cynllun Gweithredu

Mae'r isod yn rhoi cyfle i ddatgan sut bydd unrhyw effaith negyddol yn cael ei lliniaru. Yn ogystal, mae'n eich galluogi i restru sut byddwch yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y polisi. Edrychwch nôl trwy gamau 1 - 7 yr AEG a chynnwys unrhyw gamau dynodedig yn y cynllun isod. Sicrhewch fod pob cam yn cael ei restru gyda dyddiad targed ac yn cael ei glustnodi i aelod o staff a enwyd. **Dylid ymgorffori'r camau hyn yng nghynlluniau'r Gyfarwyddiaeth a'r Gwasanaeth.**

Gweithred	Swyddog Cyfrifol	Erbyn Pryd	Cynnydd
Cyhoeddi crynodeb o'r AEG ³	Damian Hughes	Ebrill 2016	

³ Crynodebau o'r AEG lle bydd angen cyhoeddi effaith sylweddol

7– Cadarnhau

Cam olaf yr AEG yw cadarnhau'n ffurfiol bod y ddogfen yn asesiad cyflawn, trwyadl a grymus


Aseswyd y polisi'n llawn mewn perthynas â'i effeithiau potensial ar gydraddoldeb ac aed i'r afael â'r holl bryderon perthnasol.

(Ar ôl i chi gwblhau'r AEG, arwyddwch isod a'i anfon ymlaen at gynrychiolydd y Gyfarwyddiaeth Cydraddoldeb)


Aelodau'r Tîm asesu

Enw	Teitl y Swydd	Sefydliad
Jennie Williams	Swyddog Prosiect	Cyngor Sir y Fflint
Sarah Thomas	Swyddog Prosiect	Cyngor Sir y Fflint

Archwiliad ansawdd: Archwiliwyd y ddogfen gan:

Enw: Damian Hughes
Teitl y Swydd: Uwch Reolwr Cynllunio a Darpariaeth Ysgolion
Cyfarwyddiaeth: Addysg ac Ieuenctid
Dyddiad: Ebrill 2016
Arwyddwyd: 

Lefel Cyfarwyddwr (cadarnhau)

Enw: Ian Budd
Teitl y Swydd: Prif Swyddog
Cyfarwyddiaeth: Addysg ac Ieuenctid
Dyddiad: Ebrill 2016
Arwyddwyd: 

Anfonwch y ddogfennaeth wedi'i chwblhau at Steph Aldridge, Polisi a Pherfformiad, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. stephanie.aldridge@flintshire.gov.uk